



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

## Teitl y cynnig:

Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019

## Adran:

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:

Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC

## Dyddiad Dechrau:

Hydref 2019

## Cyfeiriad e-bost:

[substance.misuse@llyw.cymru](mailto:substance.misuse@llyw.cymru)

# Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

## Y Cefndir

**Pasiwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Deddf 2018) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2018.** Mae Deddf 2018 yn darparu ar gyfer gosod isafbris ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol yng Nghymru gan bersonau penodol ac mae'n ei gwneud yn drosedd i fanwerthwyr alcohol werthu neu gyflenwi alcohol o eiddo cymwys am bris rhatach na'r pris hwnnw.<sup>1</sup> Pan ddaw i rym, bydd yn sefydlu cyfres o droseddau a chosbau yn ymwneud â'r system newydd a bydd yn rhoi pwerau a dyletswyddau ychwanegol i awdurdodau lleol i'w galluogi i orfodi'r ddeddfwriaeth.

Nod Ddeddf 2018 yw diogelu iechyd yfwrwyr peryglus a niweidiol sy'n dueddol o yfed llawer o alcohol rhad a chryf. Mae'n darparu fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol drwy luosi canran cryfder yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned, gan ein galluogi i dargedu gwerthiant a chyflenwad yr alcohol rhad a chryf hwnnw yn benodol. Mae Deddf 2018 yn darparu y bydd yr isafbris uned at ddibenion y Ddeddf yn cael ei bennu mewn rheoliadau.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud â Rheoliadau drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) 2019 - sy'n pennu isafbris o 50c yr uned at ddibenion Deddf 2018. Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Datblygu polisi

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai un o'r camau gweithredu mwyaf effeithiol sydd ar gael i lywodraethau yw'r gallu i reoli pris a fforddiadwyedd alcohol. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ers tro bod rhaid i ymyriad prisio fod yn rhan allweddol o unrhyw strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol, yn enwedig oherwydd bod alcohol wedi mynd yn llawer mwy fforddiadwy dros y ddau ddegawd diwethaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ddwywaith ar yr egwyddor o gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru – yn 2014 fel rhan o Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd<sup>2</sup> ac yn 2015 ar Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru).<sup>3</sup> Yn 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru hefyd ar lefel yr isafbris uned am alcohol a ffefrir, rheoliadau drafft sy'n pennu isafbris o 50c yr uned ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Memorandwm Esboniadol drafft cysylltiedig. Gan ystyried yr ymatebion hyn i'r ymgynghoriad, ynghyd ag ystod o ffactorau eraill, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y bydd gosod isafbris o 50c yr uned yn targedu lefelau yfed alcohol ymysg yfwrwyr peryglus a niweidiol, gyda'r nod o sicrhau gwell buddion iechyd i'r rheini sydd fwyaf mewn perygl, gan hefyd ystyried yr effeithiau ar yfwrwyr cymedrol a'r ymyrraeth yn y farchnad.

Ers inni ymgynghori yn wreiddiol ar y polisi o isafbris yn 2014, mae rhai gwrthwynebwyr i'r polisi wedi dweud y byddai'n well ganddynt weld treth alcohol yn hytrach nag isafbris uned. Nid yw'r pwerau i drethu alcohol wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, rydym yn credu y byddai isafbris yn ein galluogi i dargedu peryglon iechyd alcohol rhad a'r grwpiau sydd wedi'u heffeithio fwyaf, a hynny mewn modd na fyddai cynyddu toll gartref neu dreth ar werth yn gallu ei wneud. Pan ystyriodd Goruchaf Lys y DU ddeddfwriaeth isafbris yr Alban yn ddiweddar, yr un oedd y casgliad yma hefyd. Mae Prifysgol Sheffield wedi dadansoddi effaith cyflwyno isafbris uned ar wahanol lefelau yng Nghymru - cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ar 22 Chwefror 2018. Amcangyfrifodd y gwaith gan Brifysgol Sheffield y byddai

<sup>1</sup>Mae ystyr penodol hyn at ddibenion y Ddeddf, fel y nodwyd yn adrannau 3 a 4 y Ddeddf.

<sup>2</sup> Ymgynghoriad 2014 ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, Gwrandio arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-ymgynghoriad-papur-gwyn-iechyd-y-cyhoedd>

<sup>3</sup> Ymgynghoriad 2015 ar Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). <https://llyw.cymru/bil-drafft-iechyd-y-cyhoedd-isafbris-alcohol>

angen cynyddu'r dreth alcohol yn sylweddol er mwyn sicrhau'r un effeithiau â defnyddio isafbris uned o 50c. Yn hollbwysig, amcangyfrifir hefyd y byddai'r lleihad mewn anghydraddoldebau iechyd y gellir eu priodoli i alcohol yn llai pe byddai cynnydd cyfwerth mewn treth.

Fe wnaeth y Cynulliad Cenedlaethol gefnogi cyflwyno isafbris uned ym mis Mehefin, pan basiwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 9 Awst 2018, gan ddod yn Ddeddf.

### **Pum ffordd o weithio: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Wrth i isafbris uned o 50c am alcohol gael ei gyflwyno, byddwn yn parhau i gymhwyso pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - a'i ffocws ar ataliaeth, ystyried y tymor hir, cydweithio, integreiddio a chymryd rhan.

Mae alcohol yn un o brif achosion marwolaethau a salwch yng Nghymru; mae'n arwain at niwed i iechyd a niwed cymdeithasol, yn enwedig ar gyfer y lleiafrif sylweddol o bobl sy'n goryfed. Yn 2017, bu 540 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru ac yn 2017-18, bu bron i 55,000 o dderbyniadau i'r ysbyty a oedd yn gysylltiedig ag alcohol. Mae'r holl farwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol yn rhai y mae'n bosibl eu hatal a gall isafbris uned am alcohol wneud cyfraniad pwysig wrth fynd i'r afael â'r mater hwn yn y tymor hir. Yn ogystal â'r bobl dan sylw, gall y difrod a achosir gan alcohol hefyd effeithio ar eu teuluoedd, gwasanaethau cyhoeddus a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Drwy gydweithio â'n partneriaid, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o gamau gweithredu a chynlluniau i fynd i'r afael â'r problemau niferus ac amrywiol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, ond mae'n amlwg bod angen gwneud mwy. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai un o'r camau gweithredu mwyaf effeithiol sydd ar gael i lywodraethau yw'r gallu i reoli pris a fforddiadwyedd alcohol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ers tro bod rhaid i ymyriad prisio fod yn rhan allweddol o'n strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol, yn enwedig oherwydd bod alcohol wedi mynd yn llawer mwy fforddiadwy dros y ddau ddegawd diwethaf.

Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r polisi hwn, rydym wedi parhau i weithio'n agos gydag amryw o randdeiliaid i'w ddatblygu a byddwn yn parhau â hyn pan fydd y ddeddfwriaeth ar waith. Mae trafodaethau ar y gweill gyda rhanddeiliaid ynglŷn â gweithredu'r ddeddfwriaeth a bydd y rhain yn parhau dros y misoedd nesaf a phan ddaw'r Ddeddf i rym.

### **Effaith**

Nodwyd y rhesymeg polisi dros gyflwyno isafbris uned am alcohol yn y dogfennau ategol i'r Bil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) pan gyflwynwyd hwn ar gyfer ymgynghoriad yn 2015 a phan gyflwynwyd y Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref 2017.

Nod y ddeddfwriaeth yw defnyddio'r pris fel cyfrwng i leihau defnydd gormodol o alcohol. Mae tystiolaeth gryf i awgrymu y bydd cynyddu pris alcohol yn cyfrannu at leihau lefelau yfed alcohol (yn enwedig ymysg yfwyr peryglus a niweidiol) a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar leihau marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol. Yn ôl y gwaith gan Brifysgol Sheffield, byddai isafbris uned o 50c yn arwain at 66 yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol a 1,281 yn llai o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau y gall cyflwyno isafbris arwain at ganlyniadau anfwriadol - ac y bydd y polisi yn cael effaith fach neu'n cael dim effaith o gwbl ar yfwyr dibynnol ac y gall gael effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys pobl sy'n ddigartref ac yn yfed symiau peryglus a niweidiol. Archwiliwyd y safbwyntiau hyn pan ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) - a hefyd yn fwy diweddar, pan ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar yr isafbris uned a ffefrir, sef 50c. Gan gydnabod pwysigrwydd yr angen i edrych ar effaith isafbris uned, mae Deddf 2018 yn cynnwys "cymal machlud" lle bydd rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad ar weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth (bum mlynedd ar ôl gweithredu isafbris am alcohol) ac yna cyflwyno Rheoliadau, os ydynt yn dymuno i ddarpariaethau Deddf 2018 barhau. Bwriedir gwerthuso'r isafbris am alcohol - a bydd hyn yn sail i benderfynu a ddylai'r isafbris barhau.

**Effeithiau ariannol: Costau ac arbedion**

Mae'r costau ac arbedion sy'n gysylltiedig â chyflwyno isafbris uned o 50c am alcohol wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau drafft sy'n pennu lefel yr isafbris uned. I grynhoi: Amcangyfrifir y byddai cyflwyno isafbris uned o 50c am alcohol yn werth £783 miliwn i economi Cymru o ran lleihau'r achosion o salwch, troseddau ac absenoldebau o'r gweithle dros gyfnod o 20 mlynedd.

**Mecanwaith**

Bydd isafbris uned o 50c am alcohol wedi'i bennu yn y Rheoliadau - i'w gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ategir y Rheoliadau gan Femorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

# Casgliad

## 1. Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad o 12 wythnos ar y lefel a ffefrir ar gyfer yr isafbris uned, sef 50c, rhwng 28 Medi a 21 Rhagfyr 2018. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Cafodd gwybodaeth ynghylch y dogfennau ymgynghori a sut i ymateb ei dosbarthu yn eang a'i rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Rhannwyd gwybodaeth hefyd gydag Arweinwyr Cydraddoldeb y GIG, Rhwydweithiau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, Ymarferwyr Ymyriadau Byr ar Alcohol ac Arweinwyr Alcohol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd erthyglau hefyd eu cynnwys yn newyddlen y Prif Swyddog Meddygol a newyddlen yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda rhanddeiliaid, darparwyr gwasanaethau, Byrddau Cynllunio Ardal, awdurdodau lleol, Penaethiaid Safonau Masnach Cymru, manwerthwyr a chynrychiolwyr o'r diwydiant alcohol (drwy Rwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru). Cynhaliwyd tri chyfarfod creu cysylltiadau gyda defnyddwyr gwasanaethau (yng Ngwent, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd a'r Fro) a chynhaliodd Plant yng Nghymru ddau weithdy gyda phlant a phobl ifanc (yng ngogledd a de Cymru).

## 2. Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol?

Fel y nodwyd yn Adran 1 y Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig hwn, mae Prifysgol Sheffield wedi dadansoddi effaith cyflwyno isafbris uned ar wahanol lefelau yng Nghymru - cyhoeddwyd yr adroddiad mwyaf diweddar ar 22 Chwefror 2018. Roedd yn amcangyfrif y byddai isafbris uned o 50c yn arwain at 66 yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn a 1,281 yn llai o dderbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol pob blwyddyn. Roedd hefyd yn amcangyfrif y byddai yfwyr niweidiol yn yfed 269 uned yn llai bob blwyddyn (gan wario £48 yn fwy bob blwyddyn). Byddai yfwyr cymedrol yn cael eu heffeithio i raddau llai - amcangyfrifir y byddent yn yfed 2.4 uned yn llai y flwyddyn (gan gynyddu eu gwariant £3 y flwyddyn). Amcangyfrifir y byddai cyflwyno isafbris o 50c am uned o alcohol yn werth £783 miliwn i economi Cymru o ran lleihau yr achosion o salwch, troseddau ac absenoldebau o'r gweithle dros gyfnod o 20 mlynedd.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch effaith cyflwyno isafbris uned am alcohol. Yn fwyaf diweddar, tynnwyd sylw at y rhain yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar lefel yr isafbris uned a ffefrir, sef 50c. Yn benodol, mynegwyd pryderon ynghylch effaith isafbris o 50c yr uned ar aelwydydd sy'n byw mewn tlodi. Roedd nifer o ymatebion yn tynnu sylw at effaith cyflwyno isafbris uned am alcohol ar gyllidebau aelwydydd. Mynegwyd pryderon penodol y byddai cyflwyno isafbris uned am alcohol yn arwain at ganlyniadau anfwriadol ar gyfer teuluoedd â phlant os yw'r rhieni yn dewis parhau i yfed ac yn gorfod talu mwy am alcohol, ac o ganlyniad bod ganddynt lai o bres ar gyfer bwyd a thanwydd a bod potensial iddynt fynd i fwy o ddyled.

Roedd y cysyniad o gael eich cosbi am fod yn yfwr cymedrol yn thema gryf arall a ddaeth i'r amlwg, gyda nifer o ymatebwyr yn rhoi sylwadau bod yr isafbris uned yn enghraifft o'r "wladwriaeth faldodus". Roedd y rhai nad oeddent yn gefnogol o isafbris o 50c yr uned hefyd yn cwestiynu rhesymeg y polisi a'r sylfaen dystiolaeth dros ddefnyddio pris fel ysgogydd i leihau yfed peryglus a niweidiol a chodwyd pryderon penodol ynghylch a fyddai yfwyr dibynnol yn lleihau'r swm y maent yn ei yfed yn dilyn cynnydd mewn pris alcohol.

Roedd nifer o ymatebion hefyd yn mynegi pryder ynghylch y risg bosibl y gallai pobl gymryd sylweddau eraill yn lle alcohol wrth i bris alcohol gynyddu dan y rheolau isafbris, yn enwedig pan fydd unigolion yn defnyddio alcohol i drin eu materion iechyd meddwl. Nodwyd y gallai hyn yn ei dro gynyddu'r baich o ran gorfodi'r gyfraith a'r baich ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mynegwyd pryder gan rai ymatebwyr ynghylch effaith isafbris uned ar siopa trawsffiniol ac i ba raddau y byddai hyn yn tanseilio effaith iechyd y cyhoedd y ddeddfwriaeth ac yn cael effaith negyddol ar fanwerthwyr yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd yn y Gogledd-ddwyrain ac yn y manau sydd ar y ffin â Lloegr. Gall isafbris uned annog cwsmeriaid i brynu eu halcohol dros y ffin yn Lloegr, a all gael effaith uniongyrchol ar fusnesau Cymru. Nododd rhai ymatebion y gall yr effeithiau trawsffiniol hyn fod yn uwch na'r rhai a welwyd yn yr Alban. Nododd ymatebion hefyd faterion penodol sy'n debygol o effeithio ar fanwerthwyr. Roedd hyn yn cynnwys canlyniadau anfwriadol ac ystyriaethau busnes.

### 3. Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynghylch y canlyniadau anfwriadol posibl a allai ddeillio o gyflwyno isafbris ar gyfer uned o alcohol. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio'n benodol ar yr effeithiau posibl ar grwpiau agored i niwed, cyllidebau aelwydydd, y risg o droi at sylweddau eraill a'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth gan wasanaethau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried y materion posibl hyn ac rydym wedi comisiynu ymchwil i edrych ar y risg o droi at sylweddau eraill. Adroddir ar hyn cyn y gwaith gweithredu.

Ymhellach, ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd cyllid ychwanegol o £2.4 miliwn ar gyfer 2019/20 ar gyfer y saith Bwrdd Cynllunio Ardal sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau rheng flaen lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud erioed fod pennu isafbris uned ar gyfer alcohol yn rhan o strategaeth a dull gweithredu ehangach o ran lleihau camddefnyddio sylweddau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r holl ysgogwyr sydd ar gael i leihau'r niwed a achosir gan yfed gormod o alcohol, wrth inni fwrw ymlaen â Chynllun Cyflawni newydd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.

#### 4. Sut caiff effaith y cynnig ei fonitro a'i werthuso wrth i'r broses symud yn ei blaen a phan gaiff ei chwblhau?

Mae'r Ddeddf yn darparu y daw mwyafrif ei darpariaethau i rym ar y cyfryw ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru. Bwriad y polisi presennol yw y bydd darpariaethau sylweddol y Ddeddf mewn grym ym mis Mawrth 2020. Bwriad hyn yw rhoi digon o amser i'r bobl hynny yr effeithir arnynt i baratoi yn unol â hynny.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, bydd Gweinidogion Cymru yn gosod adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar weithrediad ac effaith y Ddeddf cyn gynted â phosibl ar ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd ac yna yn ei gyhoeddi. Wrth lunio'r adroddiad hwnnw, rhaid iddynt ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r rheini y maent yn eu hystyried yn briodol.

Cynigir y bydd nifer o dulliau yn cael eu defnyddio i fesur effaith y Ddeddf a'r rheoliadau a wneir mewn perthynas â hi. Bydd y dulliau hyn yn cynnwys ymchwil a gwerthuso gyda rhanddeiliaid yn ogystal â data iechyd rheolaidd, data monitro a gwerthusiad ac adolygiad ffurfiol.

##### **Data iechyd rheolaidd**

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn adrodd ar lefelau yfed alcohol bob blwyddyn – caiff data newydd eu cyhoeddi dros yr haf ac adroddir ar hyn yn flynyddol fel rhan o'r gwaith o fonitro'r polisi alcohol yn barhaus.

Mae data ar farwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol wedi'u cynnwys yn y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau a lunnir ac a gyhoeddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru pob hydref.

##### **Data monitro**

Bydd data monitro ynghylch cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol.

##### **Gwerthusiad ac adolygiad ffurfiol**

Y bwriad yw y bydd y gwerthusiad trosfwaol o'r Ddeddf yn cael ei wneud ar ffurf dadansoddiad cyfraniad.

Mae dadansoddiad cyfraniad yn ddull gweithredu seiliedig ar theori, sy'n berthnasol i adolygiad o raglenni gwaith cymhleth, aml lefel, lle nad yw'n bosibl gwneud priodoleddau achlysurol.<sup>4</sup> Mae'r dull yn berthnasol yma gan nad cyflwyno isafbris am alcohol yw'r unig ffactor a allai effeithio ar lefelau yfed alcohol a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae angen i'r dull o werthuso ystyried hyn ac asesu cyfraniad y polisi i unrhyw newidiadau a welwyd yn y canlyniadau. Yn ddamcaniaethol, fe'i hystyrir yn rhesymol i asesu cyfraniad y rhaglen:

- Os oes theori o newid sy'n dangos cysylltiadau rhwng camau gweithredu a chanlyniadau.
- Os rhoddwyd gweithgareddau cynlluniedig ar waith.
- Os oes tystiolaeth ar gael i gefnogi'r uchod.
- Os ystyriwyd effeithiau eraill a allai gael effaith ar ganlyniadau.

Nod y dull hwn yw asesu'n rhesymol gyfraniad y polisi i ddiwallu ei nod cyffredin. Mae nifer o elfennau o waith a fydd yn cyfrannu at gynhyrchu ac adolygu tystiolaeth, gan gynnwys data rheolaidd ac astudiaethau a gomisiynwyd.

##### **Astudiaethau a gomisiynwyd**

Bydd nifer o astudiaethau penodol yn cael eu comisiynu (ac wedi'u comisiynu) i ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gyfrannu at y dadansoddiad cyfraniad. Maent yn cynnwys ymchwil i effaith yr isafbris

<sup>4</sup> Mayne, J. (2008) Contribution analysis: An approach to exploring cause and effect. The Institutional Learning and Change (ILAC) Initiative.



uned am alcohol ar fanwerthwyr; gwaith ansoddol gyda darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaethau (edrych ar y risg bosibl o gyfnewid alcohol am sylweddau eraill) ac asesiad o gyflwyno isafbris uned ar y boblogaeth yfwyr yn ehangach.

### **Adolygiad Mewnol o Lefel yr Isafbris Uned**

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal adolygiad mewnol o lefel yr isafbris uned a bennwyd yn wreiddiol ar ôl y ddwy flynedd gyntaf yn dilyn y dyddiad y daeth y drefn isafbris i rym.

Er mwyn cyfrannu at yr ystyriaeth ynghylch y lefel (ac unrhyw benderfyniad ynghylch a ddylid newid lefel gychwynol yr isafbris uned a bennwyd mewn rheoliadau a llunio rheoliadau newydd), bydd yr adolygiad hwn yn ystyried cydymffurfedd, yn ogystal â data ynglŷn â defnydd alcohol, a chanlyniadau allweddol fel marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru fydd yn cynnal yr adolygiad mewnol gyda chefnogaeth y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Bydd y broses fewnol hefyd yn cael ei hadolygu gan gymheiriaid. Bydd y canfyddiadau allweddol ac unrhyw argymhellion o'r adolygiad mewnol yn cael eu cyhoeddi.